# Adroddiad Arolygu

**Cylch Meithrin Ffynnonwen**

**Canolfan Ffynnonwen**
**Login**
**Hendy-gwyn ar Daf**
**SA34 0TG**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

Adroddi ol heb ei



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

08/12/2020

# Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2020.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cylch Meithrin Ffynnonwen

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Person Cofrestredig | Elizabeth Lewis<br>Margaret Rowlands |
| Lleoedd cofrestredig | 16 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 25 Mai 2017 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Ydy Mae'r gwasanaeth yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Crynodeb

Roedd hwn yn arolygiad llawn o'r lleoliad. Fodd bynnag, ni wnaethom ystyried pob thema yn fanwl.  Cynhaliodd un arolygydd ymweliad dirybudd â'r gwasanaeth, a chyflwynodd y person cofrestredig ddogfennau i AGC yn electronig yn dilyn yr ymweliad. Roedd y dogfennau hyn yn cynnwys adroddiad ar ansawdd y gofal a chynlluniau plant unigol.

Mae'r plant wedi setlo ac yn fodlon eu byd yn y lleoliad. Maent yn mwynhau'r amrywiaeth o weithgareddau ac adnoddau sydd ar gael, ac maent yn meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r staff a phlant eraill. Mae'r staff yn rhyngweithio'n dda, ac yn cefnogi ac yn annog y plant i ddysgu a datblygu.  Mae'r amgylchedd yn lân, mewn cyflwr da ac yn darparu awyrgylch croesawgar. Defnyddir yr ardaloedd awyr agored yn dda ac mae digonedd o le i'r plant symud o gwmpas. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth ddealltwriaeth glir o'r gofal a ddarperir.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Llesiant

Mae'r plant yn gwneud penderfyniadau am beth maent am chwarae a ble. Er enghraifft, aeth rhai i chwarae gêm fwrdd ac aeth eraill i fwydo'r mochyn cwta. Mae'r staff yn gwrando ar y plant sy'n dangos arwyddion eu bod am fynd allan i chwarae yn yr awyr agored ac maent yn mynd â'r plant allan i chwarae. Maent yn symud o gwmpas yn hyderus gan sgwrsio'n hapus â'i gilydd wrth iddynt chwarae a dysgu, ac maent yn mynegi eu hunain yn glir. Siaradodd y plant yn hapus gyda ni am y goden Nadolig sydd ganddynt gartref. Caiff eu hunan-barch eu hyrwyddo gan eu bod yn gwybod y bydd y staff yn gwrando arnynt ac mae'r mwyafrif o'r staff yn eu canmol yn briodol. Er enghraifft, pan fydd plentyn yn defnyddio ‘please’ (os gwelwch yn dda) a ‘thank you’ )diolch)yn ystod amser byrbryd, mae'r staff yn eu canmol yn frwd, yn amlwg yn plesio'r plentyn ac yn gwneud iddo deimlo'n falch. Mae'r plant yn ymdopi'n dda â'r newidiadau i drefniadau a gweithgareddau o ganlyniad i bandemig COVID-19. Maent yn derbyn efallai na fydd rhai gweithgareddau ac adnoddau ar gael ond mae amrywiaeth o weithgareddau ac adnoddau diddorol ar gael iddynt fanteisio arnynt o hyd.

Mae'r plant yn gyfforddus ac yn gartrefol yn eu hamgylchedd a gwelsom lawer o wenu. Mae'r plant yn canu iddyn nhw eu hunain wrth iddynt gyflawni gweithgareddau a thasgau. Er enghraifft, wrth wneud mins-peis yn barod i'w pobi. Mae'r plant yn golchi eu dwylo'n annibynnol. Mae helpwr y dydd yn dosbarthu cwpanau a phlatiau i'w ffrindiau ac yn rhannu'r plât byrbrydau â'r plant.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Gofal a Datblygiad

Cadarnhaodd trafodaethau â'r staff fod gan rai ddealltwriaeth sylfaenol o beth yw diogelu ac maent yn gwybod beth i'w wneud pe bai ganddynt bryderon. Fodd bynnag, mae gan yr arweinydd diogelu hyder yng ngweithdrefnau'r gwasanaeth. Mae'r staff yn cymhwyso arferion newydd ac arferion glanhau effeithiol sy'n helpu i sicrhau bod y plant yn cael eu cadw'n ddiogel ac yn iach, yn enwedig yn ystod pandemig COVID-19. Mae'r staff yn gwneud yn siŵr bod digon o gyfleoedd ar gael i'r plant fod yn egnïol a chael awyr iach, gan drefnu amseroedd drwy gydol y dydd i'r plant ddefnyddio'r ardaloedd awyr agored. Fodd bynnag, ni chaiff hyn ei fonitro bob amser yn ystod y dyddiau oer iawn a gwelsom blant yn chwarae gyda dŵr oer iawn.

Mae'r rhan fwyaf o'r staff yn rhyngweithio'n gadarnhaol ac yn cefnogi dysgu a datblygiad y plant, gan gynnwys sgiliau iaith. Fodd bynnag, nid yw hyn bob amser yn gyson ar gyfer pob aelod o'r staff. Mae rhai plant yn eistedd wrth fwrdd am fwy na deugain munud ac yn colli ffocws y dasg dan sylw. Clywsom lawer o sgwrsio pan oedd y staff yn eistedd gyda'r plant wrth iddynt chwarae a chymryd rhan mewn gweithgareddau. Mae'r rhan fwyaf o'r staff yn deall eu rôl ac mae eu dealltwriaeth o'r plant yn eu helpu i gynllunio gweithgareddau priodol i gefnogi datblygiad y plant. Caiff cofnod ei gadw o anghenion unigol y plant, ac mae'r staff yn rhoi arferion a strategaethau ar waith i gefnogi eu hanghenion.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Yr Amgylchedd

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth wedi cyflwyno gorsafoedd diheintio ac arferion ychwanegol sy'n helpu i sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel. Er enghraifft, nid yw'r rhieni yn mynd i mewn i'r adeilad, ac mae'r plant yn cyrraedd ac yn gadael drwy'r brif fynedfa. Mae'r amgylchedd yn lân, mewn cyflwr da ac yn cynnig amgylchedd croesawgar i'r plant. Mae digon o le i'r plant gael eu grwpio'n briodol, ac i chwarae a dysgu'n ddiogel.

Mae ardal awyr agored fawr ar gael i'r plant symud o gwmpas yn ddiogel. Mae ardaloedd chwarae, megis tywod a dŵr, wedi'u gorchuddio o ganlyniad i'r tywydd gwael, er bod y plant wrth eu bodd yn chwarae yn y dŵr glaw sy'n eistedd ar orchuddion y tybiau. Mae'r staff yn defnyddio ystafell ddosbarth allanol, sef sied bren, gyda bwrdd a chadeiriau i gynnal gweithgareddau â phwyslais gyda grwpiau bach o blant.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Arwain a Rheoli

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth weledigaeth glir o'r gwasanaeth a ddarperir a chaiff hyn ei adlewyrchu yn y datganiad o ddiben. Gwnaethom fwrw golwg dros rai o'r polisïau a'r gweithdrefnau a gwelsom eu bod yn gyfredol ac yn adlewyrchu arferion cyfredol, ar y cyfan, gan gynnwys y polisi COVID-19 newydd a roddwyd ar waith. Mae'r staff yn cael sesiynau goruchwylio ac arfarniadau rheolaidd, sy'n eu galluogi i gynllunio ar gyfer eu datblygiad eu hunain, a rhoi newidiadau cadarnhaol ar waith yn y gwasanaeth ac i'r gofal a ddarperir.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth a'r staff yn ymrwymedig i wella canlyniadau i'r plant a'r rhieni. Mae'r argymhellion a nodwyd yn yr arolygiad diwethaf wedi cael eu rhoi ar waith. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn defnyddio'r staff yn effeithlon, sy'n sicrhau bod y plant yn cael eu goruchwylio'n briodol.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

| Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol | | |
|---|---|---|
| | | |

| Meysydd lle y mae angen gweithredu ar unwaith | |
|---|---|
| Dim | |

| Meysydd y mae angen eu gwella | |
|---|---|
| Mae angen i'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth sicrhau bod pob aelod o'r staff yn gyfarwydd â'r gweithdrefnau diogelu i'w dilyn pe bai ganddynt bryderon am les neu ddiogelwch y plant. | Rheoliad 22 (2) (e) |

| Argymhellion i gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol bob amser |
|---|

A1. Cynnal sesiynau byr ar gyfer chwarae yn yr awyr agored yn ystod tywydd garw.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

A2. Sicrhau nad yw'r staff yn cael eu gadael ar eu pen eu hunain gyda'r plant am gyfnodau hir pan fyddant yn yr awyr agored.

A3. Ystyried cyfleoedd hyfforddi i ddatblygu hyder staff wrth weithio gyda'r plant.

A4. Cynllunio i leihau'r amseroedd y mae'n rhaid i'r plant eistedd wrth fwrdd.

**Dyddiad Cyhoeddi** 27/01/2021

# Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Nid oedd unrhyw gofnodion diffyg cydymffurfio â statws agored

# Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi